



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Cynllun Taliad Sylfaenol 2015:

Canllaw i ffermwyr sydd â thir mewn mwy nag un wlad yn y
Deyrnas Unedig
(Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr)

Darllenwch y llyfryn pwysig hwn



Cynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru

© Hawlfraint y Goron 2015

Argraffu ISBN 978-1-4734-3373-1
Digidol ISBN 978-1-4734-3375-5

Ebrill 2015

Cynnwys

Cyflwyniad	1
Sut i wneud cais	2
Cadw at reolau'r BPS	4
Ffermwyr Actif	4
Hawliau BPS	5
Maint yr hawliad lleiaf	7
Taliad ffermwr ifanc	8
Tir sy'n gymwys am BPS	9
Y rheolau gwyrddu	10
Rheolau trawsgydymffurfio	12
Taliadau BPS dros €150,000	13
Gostyngiadau a chosbau	15
Mwy o wybodaeth	16

Cyflwyniad

Ar 1 Ionawr 2015, daeth Cynllun y Taliad Sengl (SPS) a'r SFP i ben a daeth Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS) i gymryd eu lle. O dan y BPS, sy'n cynnwys elfen wyrddu a thaliad i ffermwyr ifanc, un taliad fydd ar gyfer yr holl dir y mae ffermwr yn hawlio arno yn y Deyrnas Unedig (DU).

Os oes gan ffermwr dir mewn mwy nag un wlad yn y DU (yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr), rhaid iddo gyflwyno cais am BPS i bob gwlad y mae ganddo dir ynddi.

Beth yw 'daliad'?

Daliad yw'r holl dir y mae ffermwr yn ei reoli ac yn ei ffermio yn y DU (Cymru, Yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr). Gall gynnwys mwy nag un uned CPH a thir mewn mwy nag un lle. Bydd gofyn i ffermwr sydd â thir mewn dwy wlad neu fwy gyflwyno cais am BPS i asiantaeth dalu pob gwlad mae'n ffermio ynddi.

Mae yna reolau gwahanol ar gyfer y BPS yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr.

Mae'r daflen hon yn esbonio wrth ffermwyr sydd â thir mewn mwy nag un wlad sut i:

- wneud cais am daliad BPS;
- cadw at reolau'r cynllun BPS ar eu daliad – gan gynnwys y rheolau ar fod yn ffermwr actif a'r rheolau gwyrddu;
- cadw at y rheolau trawsgydymffurfio;
- gofyn am hawliau; a
- gwneud cais am daliad ffermwyr ifanc

Pwy sy'n gyfrifol am y cynlluniau yng ngwledydd gwahanol y DU?

Yr 'asiantaethau talu' sy'n rheoli'r cynlluniau ac yn talu'r taliadau:

- Cymru – Taliadau Gwledig Cymru (RPW)
- Yr Alban – Rural Payments and Inspections Division (RPID)
- Gogledd Iwerddon – Department of Agriculture and Rural Development (DARD)
- Lloegr – Rural Payments Agency (RPA)

Ble mae rheolau a chanllawiau'r cynllun

Ewch i dudalen 16 a gweld ble y gallwch gael copi o lyfrau rheolau Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr.

Sut i wneud cais

Bydd gofyn i ffermwr sydd â thir mewn mwy nag un wlad gyflwyno cais am BPS ym mhob gwlad yn y DU lle mae ganddo dir. Rhaid gwneud hyn hyd yn oed os nad yw am hawlio BPS ym mhob un o'r gwledydd hynny.

Enghraifft

Mae gan ffermwr dir yng Nghymru a Lloegr, felly rhaid gwneud cais i'r:

- yr RPW ar gyfer tir yng Nghymru
- yr RPA ar gyfer tir yn Lloegr

Bydd dal gofyn i'r ffermwr gyflwyno cais yng Nghymru ac yn Lloegr hyd yn oed os nad yw am hawlio BPS yn y ddwy wlad.

Yn y dyfodol, bydd pob cais yn gorfod cael ei wneud ar-lein. Ond, yn 2015, bydd y rhan fwyaf o ffermwyr sydd â thir yng Nghymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon wedi cael fersiynau papur o'r ffurflen gais er y byddent wedi cael gwneud cais ar-lein. Darllenwch yr wybodaeth berthnasol i weld pa ffermwyr o ba wlad fydd yn cael ffurflenni cais papur. Bydd gofyn i ffermwyr yn Lloegr gofrestru ar-lein ac yna llenwi ffurflen bapur.

Yn 2015, bydd ffermwyr yn cael gwneud cais am y BPS:	
Cymru	Ar-lein ac ar bapur
Yr Alban	Ar-lein ac ar bapur
Gogledd Iwerddon	Ar-lein ac ar bapur
Lloegr	Cofrestru ar-lein ac ymgeisio gan ddefnyddio ffurflen bapur

Bydd ffermwyr yn gorfod datgan ar eu cais BPS bod ganddynt dir mewn mwy nag un wlad yn y DU. Bydd gofyn datgan hynny ar bob cais a gyflwynir (ar gyfer pob asiantaeth dalu lle mae ganddynt dir).

Yr asiantaeth dalu yn y wlad lle maen nhw'n ffermio'r rhan fwyaf o'u tir fydd yn eu talu.

Ond os cafodd taliad SPS/SFP mwyaf diweddar ffermwr ei dalu gan asiantaeth dalu wahanol, caiff ddewis yr asiantaeth dalu honno i dalu ei BPS 2015 er nad yw'r rhan fwyaf o'i dir yn y wlad honno.

Os ydy'r ffermwr am ddewis asiantaeth dalu wahanol (fel ag a ddisgrifir yn y paragraff blaenorol), bydd gofyn iddo ddweud wrth yr asiantaeth dalu a dalodd ei SPS/SFP mwyaf diweddar erbyn 9 Mehefin. Yng Nghymru a Lloegr, bydd y ffermwr yn gallu dweud hyn ar ei ffurflen gais BPS. Yn yr Alban, bydd angen ichi ffonio 0300 244 9564 neu e-bostio Direct_Payments@Scotland.gsi.gov.uk. Yng Ngogledd Iwerddon, bydd angen ichi ffonio 0300 200 7848.

Ni fydd pa asiantaeth dalu a ddewisir yn gwneud unrhyw wahaniaeth faint gaiff ei dalu i'r ffermwr na chwaith pa reolau y bydd yn rhaid iddo gadw atyn nhw.

Sut i wneud cais

Pryd i wneud cais

I osgoi cael ei gosbi, rhaid i'r ffermwr anfon pob cais BPS a dogfen ategol at yr asiantaeth dalu berthnasol erbyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ffurflenni BPS. Yr asiantaeth dalu fydd yn pennu'r dyddiad hwnnw. Fe welwch fwy o wybodaeth am gosbau ar dudalen 15. Darllenwch lyfrau rheolau'r gwledydd y mae gennych dir ynddyn nhw am y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais – gweler tudalen 16.

Cadw at reolau'r BPS

Ar gyfer rhai o reolau'r Cynllun (fel y rhai ynghylch tir cymwys – gweler tudalen 9), bydd gofyn i'r ffermwr gadw at rheolau'r wlad y mae ganddo dir ynddi.

O ran rheolau eraill (fel y rheol ynghylch maint lleiaf cais – gweler tudalen 7), rhaid i'r ffermwr gadw at reolau'r wlad lle mae'r rhan fwyaf o'i dir. Fel hyn y bydd hi hyd yn oed os yw'r ffermwr wedi gofyn i asiantaeth dalu gwlad arall ei dalu.

Mae'r daflen hon yn egluro pa reolau sy'n gymwys ichi.

Ffermwyr Actif

Er mwyn gallu hawlio BPS, rhaid i'r ffermwr fod yn 'ffermwr actif'. Mae dwy ran i'r prawf 'ffermwr actif'. Mae'r gyntaf yn ymwneud â gweithgarwch y busnes ac mae'r ail yn ymwneud â 'thir sy'n cael ei gadw'n naturiol mewn cyflwr sy'n addas ar gyfer ei bori neu ei drin'. Nid yw'r ail ran yn amod yng Ngogledd Iwerddon nac yn Lloegr.

Yn 2015, nid oedd y prawf gweithgarwch busnes yn berthnasol i ffermwyr a oedd wedi hawlio gwerth €5,000 neu lai o SPS/SFP 2014 (a Chynllun Eidion yr Alban) ar gyfer eu daliad cyfan (cyn unrhyw gosbau neu ostyngiadau trawsgydymffurfio).

Yng Ngogledd Iwerddon, mae'r term 'ffermwr actif' yn cael ei ddefnyddio hefyd yn achos tir sy'n cael ei rentu allan o dan gytundeb tymor byr neu 'conacre'. Mae hynny'n wahanol i reolau ffermwyr actif y BPS, sef testun y daflen hon.

Darllenwch lyfrau rheolau'r gwledydd y mae gennych dir ynddyn nhw am reolau'r ffermwr actif – gweler tudalen 16.

Gweithgarwch busnes

Bydd busnesau sy'n cynnal rhai gweithgareddau anamaethyddol (gweithgareddau nad ydynt yn rhai amaethyddol – y 'rhestr negyddol' fel y'i gelwir) ddim yn cael ceisio am y BPS oni bai eu bod yn bodloni amodau penodol – yr amodau 'ymaelodi' fel y'u gelwir. Bydd gofyn i'r ymgeiswyr fodloni rheolau'r wlad lle mae'r rhan fwyaf o'u tir a phrofi i asiantaeth dalu y wlad honno eu bod yn eu bodloni. Mae rhai o'r amodau hyn yn seiliedig ar faint o dir cymwys sydd gan y ffermwr, sef yr holl dir sydd yn ei ddaliad (yn holl wledydd y DU).

Os nad yw ffermwr yn bodloni'r rheolau ar ffermwyr actif, ni chaiff hawlio BPS ar unrhyw dir unrhyw le yn y DU, na gofyn am hawliau na derbyn hawliau.

Cadw at reolau'r BPS

Enghraifft

Ffermwr sydd â'r rhan fwyaf o'i dir yn yr Alban a pheth tir yn Lloegr:

- rhaid iddo ddarllen y 'rhestr negyddol' o weithgareddau busnes yn llyfr rheolau'r BPS yn yr Alban; ac
- os yw'n cynnal un o'r gweithgareddau busnes hyn unrhyw le yn y DU, rhaid iddo fodloni'r amodau 'ailymuno' sy'n gymwys yn yr Alban.

Bydd yn rhaid iddo anfon unrhyw dystiolaeth sydd ganddo ei fod yn bodloni'r amodau ailymuno i'r asiantaeth dalu yn yr Alban. Rhaid i'r dystiolaeth ddangos ei fod yn cadw at yr amodau yn ei ddaliad cyfan. Er enghraifft, os oes angen anfonebau amaethyddol, rhaid dangos anfonebau amaethyddol pob gwlad.

Tir sy'n cael ei gadw'n naturiol

Nid oes 'tir sy'n cael ei gadw'n naturiol' yng Ngogledd Iwerddon na Lloegr. Yng Nghymru, mae morfeydd heli a thwyni tywod yn 'dir sy'n cael ei gadw'n naturiol'. Yn yr Alban, 'tir sy'n cael ei gadw'n naturiol' yw tir Rhanbarthau Talu 2 a 3 (gweler llyfr rheolau BPS yr Alban am fanylion y rhanbarthau hyn).

Ni chaiff ffermwyr sydd â thir sy'n cael ei gadw'n naturiol' yn yr Alban neu yng Nghymru wneud cais am BPS ar dir unrhyw le yn y DU os:

- yw mwy na 50% o'u tir amaethyddol ar eu daliad (gan gynnwys unrhyw dir amaethyddol yng ngwledydd eraill y DU) yn dir sy'n cael ei gadw'n naturiol; ac
- ar y tir y maen nhw'n ei gadw'n naturiol, nad ydynt yn cynnal y lefel ofynnol o weithgarwch a nodir yn llyfr rheolau'r cynllun yng Nghymru (ar gyfer tir sy'n cael ei gadw'n naturiol) neu yn yr Alban (ar gyfer tir sy'n cael ei gadw'n naturiol yn yr Alban)

Hawliau BPS

Mae gan bob gwlad yn y DU ei rheolau ei hun ynghylch hawliau BPS. I hawlio BPS, rhaid bod gan ffermwyr y nifer cywir a'r math cywir o hawliau ar eu tir.

Enghraifft

Mae gan ffermwr 20 hectar o dir cymwys yn Rhanbarth Talu 1 BPS yr Alban a 10 hectar o dir cymwys yn rhanbarth rhostir Lloegr.

I gael taliad BPS ar ei holl dir cymwys bydd angen bod gan y ffermwr:

- 20 o hawliau yn Rhanbarth Talu 1 BPS yr Alban, a
- 10 o hawliau yn rhanbarth rhostir Lloegr.

Yn Lloegr, newidiodd hawliau SPS yn awtomatig yn hawliau BPS ar 1 Ionawr 2015. Yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, mae'n rhaid i ffermwyr wneud cais am hawliau BPS newydd fel rhan o'r broses ymgeisio am BPS 2015. Dim ond ffermwyr a wnaeth gais llwyddiannus am SPS/SFP (neu Gynllun Eidion yr Alban) unrhyw le yn y DU yn 2013 fydd yn cael hawliau.

Cadw at reolau'r BPS

Ond mae rhai eithriadau i'r rheol 2013 hon – cewch fwy o fanylion yn llyfrau rheolau Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Hefyd, bydd rhai ffermwyr yn cael gwneud cais i'r Gronfa Genedlaethol am hawliau (gweler isod).

Gwneud cais i'r gronfa genedlaethol am hawliau BPS.

Mae gan Gymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr bob un ei chronfa genedlaethol (y 'gronfa ranbarthol' yw'r enw arni gan rai). Bydd rhai ffermwyr, fel ffermwyr newydd ac ifanc yn cael gofyn i'r cronfeydd genedlaethol hyn am hawliau BPS.

I gael rhagor o hawliau, rhaid i ffermwyr cymwys wneud cais amdanynt i'r holl asiantaethau talu lle:

- mae ganddynt dir cymwys; a lle
- maen nhw am ddefnyddio'u hawliau

Enghraifft

Mae gan ffermwr dir cymwys yng Nghymru, yr Alban a Lloegr ac mae am wneud cais i'r gronfa genedlaethol am hawliau yng Nghymru a'r Alban. Bydd yn rhaid gwneud cais i asiantaethau talu Cymru a'r Alban.

Yr un yw'r egwyddor os yw ffermwr cymwys sydd â hawliau yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn gwneud cais i'r gronfa genedlaethol i gynyddu gwerth ei hawliau i gyfartaledd y rhanbarth.

Bydd gofyn i'r ffermwr fodloni hefyd reolau cronfa genedlaethol y wlad y mae'n ymgeisio ynddi.

Er enghraifft, bydd gofyn bod gan ffermwr sy'n gwneud cais i gronfa genedlaethol Gogledd Iwerddon gymhwyster lefel 2 mewn amaethyddiaeth (neu bwnc cysylltiedig sydd ag o leiaf un modiwl rheoli busnes fferm) er mwyn gallu cael hawliau o'r gronfa genedlaethol ar gyfer unrhyw dir yng Ngogledd Iwerddon.

Enghraifft

Mae gan ffermwr ifanc:

- 15 hectar o dir cymwys yn rhanbarth rhostir Lloegr, ac mae ganddo eisoes 10 hawl yn y rhanbarth hwnnw; ac mae ganddo
- 12 hectar o dir cymwys yn Rhanbarth Talu 1 yr Alban ond ni chaiff hawliau yn y rhanbarth hwnnw am na hawliodd SPS/SFP (na Chynllun Eidion yr Alban) unrhyw le yn y DU yn 2013.

Fe allai wneud cais i'r asiantaeth dalu yn Lloegr a'r asiantaeth dalu yn yr Alban am hawliau newydd o'r gronfa genedlaethol. Gallai gael 5 o hawliau rhostir Lloegr ychwanegol a 12 o hawliau Rhanbarth Talu 1 yr Alban.

Darllenwch lyfrau rheolau'r gwledydd y mae gennych dir ynddyn nhw am ragor o wybodaeth – gweler tudalen 16.

Cadw at reolau'r BPS

Pryd i wneud cais am hawliau BPS

Rhag cael ei gosbi, rhaid i gais am hawliau a'r dystiolaeth ddogfennol gyrraedd asiantaethau talu erbyn y dyddiad cau y bydd yr asiantaeth sy'n talu wedi'i bennu. Darllenwch lyfrau rheolau'r gwledydd y mae gennych dir ynddyn nhw am ddyddiadau cau – gweler tudalen 16.

Maint yr hawliad lleiaf

Rhaid i hawliad ffermwr fod yn fwy na hawliad lleiaf y wlad lle mae'r rhan fwyaf o'i dir. Mae maint hawliad lleiaf pob gwlad wedi'i restru isod. Os na fydd hawliad ffermwr yn fwy na hawliad lleiaf y wlad dan sylw, ni chaiff hawlio ar dir unrhyw le yn y DU.

Maint yr hawliad lleiaf	
Cymru	5 hectar
Yr Alban	3 hectar (neu 100 i ffermwyr sy'n hawlio cymorth cysylltiedig gwirfoddol)
Gogledd Iwerddon	3 hectar
Lloegr	5 hectar

Enghraifft – maint yr hawliad lleiaf yn yr Alban

Mae'r rhan fwyaf o ddaliad ffermwr yn yr Alban. Mae hynny'n golygu bod yn rhaid i'w hawliad fod o leiaf 3 hectar o faint, hynny yw rhaid i'r ffermwr hawlio ar o leiaf 3 hectar cymwys (gyda 3 hawl) o'i ddaliad cyfan yn y DU.

Os na fydd y ffermwr yn hawlio ar o leiaf 3 hectar, ni chaiff hawlio BPS unrhyw le yn y DU.

Bydd ambell i ffermwr ar drothwy maint yr hawliad lleiaf. Mae'r enghreifftiau ar y dudalen nesaf yn dangos sut mae penderfynu a yw ffermwr yn hawlio ar yr arwynebedd lleiaf.

Cadw at reolau'r BPS

Enghraifft 1

Mae gan ffermwr ddaliad 5 hectar o faint. Mae'n hawlio ar 5 hectar o dir cymwys: 3 hectar yn Lloegr a 2 hectar yng Nghymru (mae ganddo'r nifer cywir o hawliau i allu'u cefnogi).

Mae'r rhan fwyaf o dir y daliad yn Lloegr, felly rhaid bodloni rheol BPS Lloegr ynghylch yr hawliad lleiaf (5 hectar). Caiff ei hawliad ei dderbyn gan y bydd wedi hawlio ar gyfanswm o 5 hectar cymwys (gyda 5 hawl).

Enghraifft 2

Mae gan ffermwr ddaliad 3 hectar. Mae'n hawlio ar 3 hectar o dir cymwys: 2 hectar yn Lloegr ac 1 hectar yn yr Alban (mae ganddo'r nifer cywir o hawliau i allu'u cefnogi).

Mae'r rhan fwyaf o dir y daliad hwn yn Lloegr, felly rhaid bodloni rheol BPS Lloegr ynghylch yr hawliad lleiaf (5 hectar). Bydd yn rhaid gwrthod yr hawliad gan ei fod yn hawlio ar 3 hectar cymwys o dir (gyda 3 hawl). Ni chaiff BPS ei dalu iddo unrhyw le yn y DU.

Taliad i ffermwyr ifanc

Os ydy'r ffermwr yn 40 oed neu lai ym mlwyddyn ei gais cyntaf am BPS, efallai y bydd yn gymwys am daliad ffermwr ifanc. Bydd yn rhaid gwneud cais ym mhob un o wledydd y DU lle mae am gael taliad ffermwr ifanc.

Taliad chwyddo yw'r taliad ffermwr ifanc, yn ôl nifer yr hectarau cymwys (â hawliau) y mae ffermwr yn ei ddefnyddio i hawlio BPS.

Mae'r taliad ffermwr ifanc yn gweithio'n wahanol mewn rhannau gwahanol o'r DU (gweler y tabl isod).

	Gallwch gael taliad ffermwr ifanc ar:	Yr oedran lleiaf:
Cymru	Hyd at 25 hectar	16 oed ar gyfer unig fasnachwyr a phartneriaethau, 18 oed ar gyfer cwmnïau
Yr Alban	Hyd at 90 hectar	16 oed
Gogledd Iwerddon	Hyd at 90 hectar	Dim isafswm
Lloegr	Hyd at 90 hectar	18 oed

Caiff y taliad ei wneud gyntaf yn y wlad lle mae'r rhan fwyaf o'r tir y mae'r ffermwr yn hawlio arno (gyda hawliau). Ni chaiff hawlio ar fwy na'r uchafswm a ganiateir yn y wlad honno (gweler y tabl uchod). Ond, os ydy'r ffermwr yn hawlio ar lai na 90 o hectarau cymwys (gyda hawliau) yn y wlad honno, gallai gael taliad yn un o'r gwledydd eraill – cyn belled nad yw'n hawlio mwy nag a ganiateir yn y wlad honno.

Cadw at reolau'r BPS

NI chaiff ffermwr ifanc daliad ar fwy na 90 hectar (gyda hawliau) o'i ddaliad (tir ym mhob rhan o'r DU).

Enghraifft 1

Mae ffermwr ifanc wedi hawlio ar 80 o hectarau cymwys (gyda hawliau) yn Lloegr ac 20 o hectarau cymwys (gyda hawliau) yn yr Alban.

Gan mai yn Lloegr y mae'r rhan fwyaf o'i dir, hwnnw yw'r tir y telir y taliad ffermwr ifanc arno gyntaf. Caiff daliad ar ei holl 80 hectar yn Lloegr. Gan ei fod yn llai na'r uchafswm o 90 hectar a ganiateir, caiff daliad hefyd ar 10 hectar o'i dir yn yr Alban ond nid ar yr 20 hectar llawn y gofynnodd y ffermwr amdano. Dyna roi cyfanswm o 90 hectar.

Enghraifft 2

Mae ffermwr ifanc wedi hawlio ar 80 o hectarau cymwys (gyda hawliau) yng Nghymru a 70 o hectarau cymwys (gyda hawliau) yn Lloegr.

Gan mai yng Nghymru y mae'r rhan fwyaf o'r tir, hwnnw yw'r tir y telir y taliad ffermwr ifanc arno gyntaf. Caiff daliad ar 25 hectar yng Nghymru (yr uchafswm yng Nghymru). Gan ei fod yn llai na'r uchafswm o 90 hectar, caiff daliad hefyd ar 65 o hectarau yn Lloegr. Dyna roi cyfanswm o 90 hectar.

Enghraifft 3

Mae ffermwr ifanc wedi hawlio ar 50 o hectarau cymwys (gyda hawliau) yn Lloegr a 30 o hawliau cymwys (gyda hawliau) yng Nghymru.

Gan mai yn Lloegr y mae'r rhan fwyaf o'r tir, hwnnw yw'r tir y telir y taliad ffermwr ifanc arno gyntaf. Caiff daliad ar ei holl 50 hectar yn Lloegr. Gan ei fod yn llai na'r uchafswm o 90 hectar a ganiateir, caiff daliad hefyd ar 25 hectar yng Nghymru (yr uchafswm yng Nghymru). Dyna roi cyfanswm o 75 hectar.

I gael y taliad ffermwr ifanc yng Ngogledd Iwerddon, bydd gofyn bod gennych gymhwyster lefel 2 mewn amaethyddiaeth (neu bwnc cysylltiedig sy'n cynnwys o leiaf un modiwl rheoli busnes fferm) i fod yn gymwys am daliad ar unrhyw dir yng Ngogledd Iwerddon.

Darllenwch lyfrau rheolau'r gwledydd y mae gennych dir ynddyn nhw i gael rhagor o wybodaeth – gweler tudalen 16.

Tir sy'n gymwys am BPS

Bydd gofyn i'r tir sy'n cael ei ddefnyddio i hawlio taliadau BPS arno fodloni rheolau'r wlad y mae'r tir ynddi. Darllenwch lyfrau rheolau'r gwledydd y mae gennych dir ynddyn nhw i gael rhagor o wybodaeth – gweler tudalen 16.

Y rheolau gwyrddu

Rhaid i ffermwyr fodloni'r rheolau gwyrddu, sef tyfu amrywiaeth o gnydau a chynnal ardaloedd â ffocws ecolegol (AFfE) ar lefel y 'daliad', nid ar gyfer gwledydd ar wahân. Mae hynny'n golygu bod gofyn ystyried yr holl dir yn eu daliad (yn holl wledydd y DU) wrth gyfrif:

- faint o dir sydd angen tyfu amrywiaeth o gnydau a chynnal AFfE arno; ac
- a yw'n bodloni'r amodau hynny

Dylai ffermwyr ystyried eu daliad cyfan (eu holl dir yn y DU) wrth feddwl a allant osgoi cynnal yr elfen wyrddu. Yr un yw'r rheolau i gael eich eithrio rhag y rheol tyfu amrywiaeth o gnydau a chynnal AFfE ym mhob rhan o'r DU.

Darllenwch lyfrau rheolau'r gwledydd y mae gennych dir ynddyn nhw i gael rhagor o wybodaeth – gweler tudalen 16.

Beth mae hyn yn ei olygu o ran y rheol ar dyfu amrywiaeth o gnydau?

Mae'r rheolau ar dyfu amrywiaeth o gnydau yn pennu faint o gnydau y mae'n rhaid i ffermwr eu tyfu ac ar ba ganran o'u tir âr.

Dylai ffermwr gynnwys yr holl dir cymwys yn ei ddaliad (ei holl dir yn y DU) i gyfrif:

- faint o dir âr sydd ganddo;
- canran y tir âr a fydd o dan bob cnwd; ac
- ac a oes hawl ganddo gael ei eithrio

Nid oes gofyn i ffermwr dyfu'r nifer a'r cyfrannau gofynnol o gnydau ym mhob un o wledydd y DU – rhaid cadw at y rheolau ynghylch tyfu amrywiaeth o gnydau fel cyfartaledd ar draws y daliad cyfan.

Enghraifft

Mae gan ffermwr fwy na 30 hectar o dir âr (yng Nghymru a Lloegr). Byddai gofyn iddo dyfu 3 chnwd i fodloni'r rheol ar dyfu amrywiaeth o gnydau. Yn yr achos hwn, ni chaiff y prif gnwd orchuddio mwy na 75% o'r tir âr ac ni chaiff y 2 brif gnwd orchuddio mwy na 95% o'r tir âr.

Mae'n eu plannu fel a ganlyn:

- prif gnwd (65%) yn Lloegr
- 2il gnwd (25%) yn Lloegr
- 3ydd cnwd (10%) yng Nghymru

Drwy hynny, bydd wedi bodloni'r rheol ar dyfu amrywiaeth o gnydau yn ei ddaliad (ei holl dir yn y DU).

Mae gan bob gwlad yn y DU ei rhestr ei hun o gnydau o dan y rheol ar dyfu amrywiaeth o gnydau (darllenwch dudalen 16 am ragor o wybodaeth). Bydd gofyn i ffermwyr ddefnyddio'r rhestr sy'n perthyn i'r wlad lle mae'r tir.

Cadw at reolau'r BPS

Beth mae hyn yn ei olygu i Ardaloedd â Ffocws Ecolegol?

Bydd angen i ffermwyr sydd â mwy na 15 hectar o dir â'r gynnal Ardaloedd â Ffocws Ecolegol ar o leiaf 5% o'u tir â'r, oni bai eu bod yn gallu cael eu heithrio. Darllenwch lyfrau rheolau'r gwledydd y mae gennych dir ynddyn nhw am fwy o wybodaeth am yr eithriadau – gweler tudalen 16.

Dylai ffermwr gynnwys yr holl dir cymwys yn ei ddaliad (ei holl dir yn y DU) i gyfrif:

- ei dir â'r;
- yr angen i gynnal AFfE ar 5%; a
- a oes hawl ganddo gael ei eithrio

Caiff y ffermwr ddefnyddio tir a/neu nodweddion ar unrhyw ran o'i ddaliad (mewn unrhyw wlad yn y DU) i gwrdd â'r gofyn i gynnal AFfE ar 5% o'i dir â'r. Mae hynny'n golygu nad oes yn rhaid i ffermwr fodloni'r rheol 5% ym mhob gwlad yn y DU y mae ganddo dir ynddi – caiff gwrdd â'r gofyn ar lefel ei ddaliad.

Rhaid i ffermwr fodloni'r rheol AFfE sy'n perthyn i'r wlad yn y DU lle mae'r tir neu'r nodwedd sy'n cael ei ddefnyddio fel AFfE. Defnyddir tir a nodweddion gwahanol mewn gwledydd gwahanol. Mae gwahaniaeth hefyd o ran beth yw gwerth y tiroedd a'r nodweddion hynny fel rhan o AFfE.

Mae'r tabl isod yn dangos y nodweddion a'r tiroedd y gallwch eu defnyddio yng ngwledydd y DU.

Math o AFfE	Cymru	Yr Alban	Gogledd Iwerddon	Lloegr
Gwyndwn	✓	✓	✓	✓
Perthi (gwrychoedd)	✓		✓	✓
Ymylon caeau		✓		
Ffogydd			✓	
Walïau cerrig traddodiadol	✓		✓	
Cloddïau			✓	
Nodweddion archeolegol			✓	
Lleiniâu clustogi		✓		✓
Coed-amaeth			✓	
Is-gnwd neu orchudd gwyrdd		✓		✓
Coedlan cylchdro byr	✓		✓	
Tir dan goed	✓		✓	
Cnydau cloi nitrogen	✓	✓	✓	✓

Enghraifft

Mae daliad ffermwr yn cynnwys tir yng Nghymru a Lloegr. Gallai ddefnyddio tir neu nodweddion ar ei dir yn Lloegr, ei dir yng Nghymru, neu'r ddwy i gyfrif at yr AFE o 5%.

Gallai ffermwr ddefnyddio is-gnwd ar ei dir yn Lloegr i gwrdd â'r gofyn, ond ni chaiff ddefnyddio is-gnwd ar ei dir yng Nghymru.

Porfa barhaol

Rhaid i ffermwr gadw at reolau'r wlad lle mae ei borfa barhaol. Darllenwch lyfrau rheolau'r gwledydd y mae gennych dir ynddyn nhw am ragor o wybodaeth – gweler tudalen 16.

Rheolau trawsgydymffurfio

Rhaid i ffermwyr gadw at reolau trawsgydymffurfio y wlad lle mae eu tir neu eu da byw. Darllenwch lyfrau rheolau'r gwledydd y mae gennych dir ynddyn nhw am ragor o wybodaeth – gweler tudalen 16.

Taliadau BPS dros €150,000

Os ydy taliad BPS 2015 ffermwr yn fwy na €150,000 (heb gynnwys y taliad gwyrddu ac unrhyw daliad i ffermwyr ifanc), caiff y swm dros €150,000 ei leihau.

Mae'r tabl isod yn dangos y gostyngiadau yng ngwledydd y DU:

Gostyngiadau	
Cymru	Symiau: <ul style="list-style-type: none">• dros €150,000 hyd at €200,000 – eu lleihau 15%• dros €200,000 hyd at €250,000 – eu lleihau 30%• dros €250,000 hyd at €300,000 – eu lleihau 55%• dros €300,000 – eu lleihau 100%
Yr Alban	Symiau dros €150,000 – eu lleihau 5%
Gogledd Iwerddon	Symiau dros €150,000 – eu lleihau 100%
Lloegr	Symiau dros €150,000 - eu lleihau 5%

Cyfrifir faint o gyfran o'i holl hawliau sydd gan ffermwr ym mhob un o wledydd y DU a'u gwerth a defnyddir y cyfraddau uchod i weithio allan faint y gostyngiad.

Mae'r enghraifft ar y dudalen nesaf yn dangos sut y caiff y gostyngiadau eu cyfrif.

Taliadau BPS dros €150,000

Enghraifft

Mae gan ffermwr daliad BPS (heb gynnwys taliad gwyrddu ac unrhyw daliad i ffermwr ifanc) o €250,000. O'r holl hawliau a ddefnyddiwyd gan y ffermwr i hawlio taliad:

- cafodd 25% o gyfanswm gwerth yr hawliau eu defnyddio yng Ngogledd Iwerddon
- cafodd 75% o gyfanswm gwerth yr hawliau eu defnyddio yn yr Alban

Felly, caiff €100,000 (y swm dros €150,000) ei leihau fel a ganlyn:

- 25% o dan gyfraddau Gogledd Iwerddon
- 75% o dan gyfraddau'r Alban

Gogledd Iwerddon:

Lluoswch y swm fydd yn cael ei leihau (€100,000) â gwerth cyfran yr hawliau fydd yn cael eu defnyddio yng Ngogledd Iwerddon (25%). Yna lluoswch yr ateb â chyfradd y gostyngiad yng Ngogledd Iwerddon (100%).

$$€100,000 \times 0.25 \times 1 = €25,000.$$

Ar gyfer yr hawliau sy'n cael eu defnyddio yng Ngogledd Iwerddon, dyna ostyngiad o €25,000

Yr Alban:

Lluoswch y swm fydd yn cael ei leihau (€100,000) â gwerth cyfran yr hawliau fydd yn cael eu defnyddio yn yr Alban (75%). Yna lluoswch yr ateb â chyfradd y gostyngiad sy'n cael ei defnyddio yn yr Alban (5%).

$$€100,000 \times 0.75 \times 0.05 = €3,750.$$

Ar gyfer yr hawliau sy'n cael eu defnyddio yn yr Alban, dyna ostyngiad o €3,750

Cyfanswm y taliad ar ôl gostyngiadau:

Taliad gwreiddiol: €250,000

Tynnu gostyngiad Gogledd Iwerddon: €25,000

Tynnu gostyngiad yr Alban: €3,750

Cyfanswm y taliad BPS (heb gynnwys y taliad gwyrddu ac unrhyw daliad i ffermwr ifanc): €221,250

Gostyngiadau a chosbau

Os bydd ffermwr yn torri rheolau'r cynllun, caiff ei gosbi a chaiff ei gais ei leihau. Caiff ffermwr ei gosbi am:

- wneud cais hwyr am daliad neu hawliau;
- gwneud newidiadau penodol i'w gais ar ôl y dyddiad cau;
- peidio â bodloni amodau'r cynllun neu'r rheolau gwyrddu neu drawsgydymffurfio; neu
- am beidio â datgan ei holl barseli tir

At ddiben cyfrif cosbau a gostyngiadau, caiff holl dir daliad ffermwr yn y DU ei drin gyda'i gilydd fel un.

Fe welwch fwy o fanylion am gosbau a gostyngiadau yn llyfrau rheolau gwledydd unigol y DU – gweler tudalen 16 am fwy o wybodaeth.

Mwy o wybodaeth

Yng Nghymru, cewch fwy o wybodaeth yn:

www.gov.wales.uk/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/farming/safsingleappform/?lang=cy

Yn yr Alban ewch i : www.ruralpayments.org/publicsite/futures/

Yng Ngogledd Iwerddon, ewch i www.dardni.gov.uk/grants-and-funding/area-based-schemes-2015.htm

Yn Lloegr, anfonodd yr RPA a Defra y llyfrynnau canlynol at ffermwyr:

- The Basic Payment Scheme in England 2015.
- The Guide to Cross Compliance in England 2015.

I ddarllen y llyfrynnau hyn ac i gael mwy o wybodaeth am gynlluniau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin, ewch i:

www.gov.uk/government/publications/basic-payment-scheme-guidance-for-2015 a www.gov.uk/government/publications/cross-compliance-guidance-for-2015

Ymwadiad / Rhybudd cyfreithiol

Ein dehongliad ni o reoliadau cynlluniau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin yn 2015 yw'r daflen hon. Dim ond y llysoedd, serch hynny, all wir ddehongli'r gyfraith.

Efallai y dylech ofyn barn broffesiynol neu gyfreithiol annibynnol cyn newid unrhyw beth am eich busnes. Nid ydym yn cael eich cyngori chi na'ch cynrychiolydd cyfreithiol ar strwythur eich busnes.

© Hawlfraint y Goron 2015

OGL

Cewch aildefnyddio'r ddogfen hon (heb y logos) heb dâl mewn unrhyw ddiwyg neu gyfrwng o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0. I weld y drwydded, ewch i:

<http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence>; neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Gwladol, Kew, Richmond, Surrey, TW9 4DU; neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Mae'r ddogfen hon ar ein gwefan hefyd yn: <https://www.gov.uk/cap-reform>

Os oes gennych gwestiynau am y ddogfen hon, e-bostiwch: rpwonline@wales.gsi.gov.uk

www.cymru.gov.uk/ffermio

Ebrill 2015

CBG01v1

Cynhyrchwyd gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

